**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 09:30AM AR 20 GORFFENNAF 2023 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd); Mrs Dianne Bevan; Mr Frank Cuthbert; Mr Michael Imperato; Ms Ginger Wiegand.

**Swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Miss Carys Vaughan (Swyddog Arolygon); Miss Caitlin Lowry (Swyddog Cymorth Tîm).

**Amser Dechrau: 09:30**
**Amser Gorffen: 10:35**

## 1. Datganiadau Buddiannau

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

## 2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd

2.1. Croesawodd y Cadeirydd Ms Ginger Wiegand i'w chyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf.

2.2. **Nododd** y Cadeirydd fod agenda'r cyfarfod wedi cael ei strwythuro yn ôl amser er mwyn darparu rhestr fanwl o gynnydd i gyfarfodydd yn y dyfodol.

2.3. **Nododd** y Cadeirydd fod sylwadau ar yr adroddiad Adnoddau Dynol wedi cael eu derbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru (LlC) a bod angen gwneud newidiadau. **Nodwyd** bod y ddogfen wedi cael ei llunio heb fanylion am swyddogaethau'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a bod y rhain wedi cael eu derbyn bellach.

2.4. **Nodwyd** bod rhannau o'r gofrestr risg ar gyfer y Bwrdd Gweithredu wedi cael eu llenwi. Bydd y gofrestr risg a'r Ddogfen Cychwyn Prosiect (PID) yn cael eu rhannu ar ôl cyfarfod nesaf y Bwrdd Gweithredu.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**3.2.** Rhoddwyd sylw i'r cofnod gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023. **Nodwyd** bod y Prif Weithredwr wedi amlygu cydweithiwr o'r Comisiwn Ffiniau i Loegr i ymuno â'r Comisiwn i gefnogi'r gwaith pontio. Gobeithir y bydd y cydweithiwr hwn yn ymuno ym mis Medi.

## 4. Materion yn Codi

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1)** Ni chafodd y Comisiwn unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth rhwng 14 Mehefin 2023 a 13 Gorffennaf 2023.

**4.3.** **(Mater 2) Nodwyd** y bydd yr eitem hon yn cael ei thrafod o dan eitem agenda 11.

**4.4.** **(Mater 3) Nodwyd** bod yr adroddiad Adnoddau Dynol wedi cael ei gyflwyno i LlC.

**4.5.** **(Mater 4) Nodwyd** y bydd yr eitem hon yn cael ei thrafod o dan eitem 10.

**4.6.** **(Mater 5) Nodwyd** bod ymateb wedi cael ei dderbyn gan adran TG LlC, ond bod angen mwy o wybodaeth o hyd ynglŷn â lleoliadau wal dân.

**4.7.** **(Mater 6) Nodwyd** nad oes diweddariad pellach ar y mater hwn. Mae'r Comisiwn yn aros am ymateb gan LlC o hyd.

**4.8.** **(Mater 7) Nodwyd** bod yr holiadur ymchwil wedi cael ei ddosbarthu ac y derbyniwyd 125 o ymatebion yn ystod y pythefnos cyntaf. Nodwyd bod ORS wedi anfon nodyn atgoffa trwy Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

## 5. Y Rhaglen Bontio (i'w thrafod)

**5.1.** Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r Comisiwn ar gynnydd Bwrdd y Rhaglen Bontio.

- Rhoddwyd ystyriaeth i Bolisi Recriwtio'r Prif Weithredwr dyddiedig mis Gorffennaf 2023.

## 6. Y Flaenraglen Waith

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar y Flaenraglen Waith dyddiedig 13 Gorffennaf 2023 gan y Prif Weithredwr.

**6.2.** **Nodwyd** a **chytunwyd** bod angen eglurhad ynglŷn â swyddogaethau'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (EMB) newydd, gan gynnwys pa adnoddau a fydd yn cael eu trosglwyddo o LlC.

**6.3.** **Nodwyd** y dylai'r Comisiwn fod mewn sefyllfa i rannu dogfennau'r Bwrdd Gweithredu erbyn y cyfarfod nesaf.

**6.4.** **Nodwyd** y bydd Lisa James o LlC yn mynychu cyfarfod mis Hydref.

**6.5.** **Nodwyd** y bydd Arolwg y Senedd yn mynnu bod y Comisiwn yn pennu p'un a yw etholaeth yn Etholaeth Sirol neu'n Etholaeth Fwrdeistrefol.

**6.6.** **Nodwyd** bod angen cadarnhad ynglŷn â chwmpas y cyngor y bydd yr EMB mewn sefyllfa i'w roi.

**6.7.** **Nodwyd** y bydd rhaid i'r EMB gael ei gadeirio gan gyn Swyddog Canlyniadau.

**6.8.** **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i gadarnhau rhesymeg y gofyniad i bennu statws Etholaeth Fwrdeistrefol neu Sirol ar gyfer Adolygiad y Senedd.

**6.9.** **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i ofyn am gadarnhad ynglŷn â lefel y cyngor y bydd yr EMB yn ei rhoi.

## 7. Monitro'r Gyllideb

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Monitro'r Gyllideb dyddiedig 20 Gorffennaf 2023 gan y Rheolwr Cyllid. **Nododd** a chymeradwyodd y Comisiwn y bwriad i drosglwyddo cronfeydd rhwng categorïau o'r gyllideb.

**7.2.** O ran y tanwariant ar Gostau Staff, disgwyliwyd y byddai taliad costau byw untro a ddyfernir i bob gwas sifil, ynghyd â dyfarniad cyflog 5% posibl, yn lleihau'r tanwariant hwn yn sylweddol.

**7.3.** **Nodwyd** bod mwyafrif y gorwariant a gofnodwyd o ganlyniad i gostau a gafwyd wrth gynnal arolygon cymunedol ac y byddai'r costau hyn yn cael eu hadennill oddi wrth yr awdurdodau lleol perthnasol maes o law.

## 8. Rheoli Risg

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Rheoli Risg dyddiedig 20 Gorffennaf 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**8.2.** **Nodwyd** y byddai'r Flaenraglen Waith yn cael ei thrafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) ar 25 Gorffennaf 2023, ac y gallai'r gofrestr risg newid wedi hynny.

## 9. Cyfrifon Blynyddol 2022-23 Effaith Safonau Cyfrifyddu Nad Ydynt Eto mewn Grym

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cyfrifon Blynyddol 2022-23 Effaith Safonau Cyfrifyddu Nad Ydynt Eto mewn Grym dyddiedig 20 Gorffennaf 2023 gan y Rheolwr Cyllid. Nodwyd bod safon IFRS16 wedi cael ei gweithredu ar gyfer cyfrifon blynyddol 2022-23. **Cytunwyd** y byddai'r testun arfaethedig ynglŷn â safonau y disgwylir iddynt ddod i rym yn ystod y blynyddoedd i ddod yn cael ei gynnwys yng nghyfrifon blynyddol 2022-23.

## 10. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2022-23

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2022-23 dyddiedig 20 Gorffennaf 2023 gan y Rheolwr Cyllid.

**10.2.** **Nodwyd** bod yr archwiliad o gyfrifon blynyddol 2022-23 wedi cael ei oedi'n sylweddol o ganlyniad i ofynion archwilio ychwanegol a osodwyd ar Archwilio Cymru. Disgwyliwyd y byddai'r archwiliad yn cael ei gwblhau'n derfynol yn ystod mis Awst 2023 ac y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ym mis Medi i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Terfynol ar gyfer 2022-23.

**10.3.** **Nodwyd** lefel manylion ac eglurder yr adroddiad.

**10.4.** **Cytunwyd** ar y dogfennau yn yr adroddiad.

## 11. Adroddiad Cynnydd Arolygon

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon dyddiedig 12 Gorffennaf 2023 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**11.2.** **Nodwyd** mai'r dyddiad cyhoeddi ar gyfer adroddiad cynigion cychwynnol Bro Morgannwg fydd 5 Medi 2023 ac y bydd y cyfnod ymgynghori'n dechrau ar yr un diwrnod ac yn cau ar 30 Hydref 2023. **Nodwyd** bod yr adroddiad yn cael ei gyfieithu ar hyn o bryd ac y bydd nifer gyfyngedig o 10 neu 15 o gopïau'n cael eu hargraffu.

**11.3.** **Nodwyd** bod iaith adroddiadau arolygon cymunedol yn amrywio. **Cytunwyd** creu safon ieithyddol ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.

**11.4.** **Cytunwyd** y byddai cofnod gwersi a ddysgwyd yn cael ei ychwanegu at adroddiadau yn y dyfodol.

**11.5.** **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Polisi a Rhaglenni i greu cofnod arddull ar gyfer adroddiadau cynnydd arolygon yn y dyfodol.

**11.6.** **Gweithredu:** Ychwanegu cofnod gwersi a ddysgwyd at adroddiadau cynnydd arolygon yn y dyfodol.

## 12. Arolwg Cymunedol Caerffili – Drafft o'r Adroddiad Cynigion Drafft

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Arolwg Cymunedol Caerffili – Drafft o'r Adroddiad Cynigion Drafft dyddiedig 12 Gorffennaf 2023 gan y Swyddog Arolygon.

**12.2.** **Nodwyd** a **chytunwyd** dileu'r gair 'amgen' o'r term 'enw Cymraeg amgen' mewn adroddiadau arolwg cymunedol yn y dyfodol er mwyn rhoi'r un statws iddo â'r 'enw Saesneg'.

**12.3.** **Cytunwyd** ar yr Adroddiad Cynigion Drafft yn amodol ar fân newidiadau.

**12.4.** **Nodwyd** y bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cychwyn ei phroses sicrhau ansawdd ar gyfer yr adroddiad pan fydd y newidiadau cytunedig wedi cael eu gwneud.

**12.5.** **Gweithredu:** Y Swyddog Arolygon i ddiweddaru'r Adroddiad Cynigion Drafft gyda'r newidiadau cytunedig.

## 13. Calendr Digwyddiadau

**13.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Calendr Digwyddiadau.

**13.2.** **Cynigiwyd** a **chytunwyd** canslo'r cyfarfod arfaethedig ar 16 Awst 2023 o ganlyniad i oedi wrth gynnal arolwg cymunedol Ceredigion.

## 14. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

**14.1.** Ni nodwyd unrhyw fater arall perthnasol.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 20 Medi 2023**